## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

### YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS YN Y DATGANIAD O DDIBEN

**1.** Nodau ac amcanion yr asiantaeth.

**2.** Enw a chyfeiriad y darparydd cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig.

**3.** Unrhyw amodau sydd mewn grym am y tro o ran cofrestru'r personau cofrestredig o dan Ran 2 o Ddeddf 2000.

**4.** Cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr cofrestredig.

**5.** Nifer, cymwysterau perthnasol a phrofiad y staff sy'n gweithio at ddibenion yr asiantaeth.

**6.** Strwythur trefniadaethol yr asiantaeth.

**7.** Disgrifiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr asiantaeth.

**8.** Y system sydd wedi'i sefydlu i fonitro a gwerthuso gwaith darparu'r gwasanaethau hynny er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr asiantaeth yn effeithiol a bod ansawdd y gwasanaethau hynny o safon briodol.

**9.** Crynodeb o'r weithdrefn gwynion.

**10.** Enw, cyfeiriad a Rhif ffôn yr awdurdod cofrestru.

## ATODLEN 2

Rheoliadau 5(3)(c), 7(2)(c), 22(2)(ch)

### YR WYBODAETH Y MAE'N OFYNNOL EI CHAEL AM YR UNIGOLYN CYFRIFOL NEU AM BERSONAU SY'N CEISIO RHEOLI NEU WEITHIO AT DDIBENION ASIANTAETH

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Naill ai —

(a) os bydd tystysgrif yn ofynnol at ddiben sy'n ymwneud ag adran 115(5)(ea) o Ddeddf yr Heddlu 1997 (cofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000)(**1**), neu os yw'r swydd yn dod o fewn adran 115(3) neu (4) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**2**), tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddwyd o dan adran 115 o'r Ddeddf honno y mae llai na 3 blynedd mewn cysylltiad â hi wedi mynd heibio ers iddi gael ei dyroddi; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddwyd o dan adran 113 o'r Ddeddf honno, ac y mae llai na 3 blynedd wedi mynd heibio mewn cysylltiad â hi ers iddi gael ei dyroddi,

gan gynnwys, i'r graddau a ganiatawyd o dan Ddeddf yr Heddlu 1997 y materion a bennwyd yn adrannau 113(3A) neu (3C) neu 115(6A) neu (6B) o'r Ddeddf honno(**3**).

**3.** Dau dystlythyr ysgrifenedig, gan gynnwys tystlythyr oddi wrth gyflogwr mwyaf diweddar y person, os oes un.

**4.** Pan fo person wedi gweithio o'r blaen mewn swydd yr oedd ei ddyletswyddau'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, cadarnhad o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

(**1**) 1997 p.50. Mewnosodwyd adran 115(5)(ea) gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, adran 104 p.14.
(**2**) Mae swydd o fewn adran 115(3) os yw'n golygu bod y person wrthi'n rheolaidd yn gofalu am bersonau o dan 18 oed, yn eu hyfforddi, yn eu goruchwylio, neu os yw'r personau hynny o dan ei ofal ef yn unig.
(**3**) Mewnosodwyd adrannau 113(3A) a 115(6A) yn Neddf yr Heddlu 1997 gan adran 8 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(p.14) a'u diwygio gan adrannau 104, 106 a 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 25 o Atodlen 4 iddi.

**5.** Tystiolaeth ddogfennol am unrhyw gymhwyster perthnasol.

**6.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol am unrhyw fylchau yn y gyflogaeth.

## ATODLEN 3

Rheoliad 25(1)

### Y COFNODION SYDD I'W CADW YNGHYLCH POB PERSON SY'N GWEITHIO AT DDIBENION YR ASIANTAETH

Cofnod sy'n dangos ar gyfer pob person sy'n gweithio at ddibenion yr asiantaeth —

**1.** Enw llawn.

**2.** Rhyw.

**3.** Dyddiad geni.

**4.** Cyfeiriad cartref.

**5.** Cymwysterau sy'n berthnasol i weithio gyda phersonau sy'n cael gwasanaethau cymorth mabwysiadu a phrofiad o weithio gyda phersonau o'r fath ac (o ran asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu i blant) cymwysterau sy'n berthnasol i waith sy'n cynnwys plant, a phrofiad o waith o'r fath.

**6.** Y dyddiadau pan fydd y person yn dechrau cael ei gyflogi felly a phan fydd ei gyflogaeth yn dod i ben.

**7.** A yw'r person yn cael ei gyflogi gan y darparydd cofrestredig o dan gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau, neu a yw'n cael ei gyflogi gan rywun heblaw'r darparydd cofrestredig.

**8.** Disgrifiad swydd y person ac a yw'n gweithio'n amser llawn neu'n rhan amser a nifer yr oriau y mae'n cael ei gyflogi bob wythnos gan y darparydd cofrestredig neu'n cael ei gontractio bob wythnos i weithio i'r darparydd hwnnw.

**9.** Yr hyfforddiant y mae'r person wedi ymgymryd ag ef, y gwaith o'i oruchwylio a'i werthuso, y camau disgyblu (os o gwbl) a gymerwyd yn ei erbyn, y cwynion (os o gwbl) a wnaed yn ei erbyn neu ynglŷn â'r person a chanlyniad y cwynion hynny ac unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'i gyflogaeth at ddibenion yr asiantaeth.

## ATODLEN 4

Rheoliad 27(1)

### DIGWYDDIADAU A HYSBYSIADAU

| *Colofn 1*<br>Y digwyddiad | *Colofn 2*<br>I'w hysbysu i:<br>Yr awdurdod cofrestru | Y Bwrdd Iechyd Lleol /Yr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol | Yr awdurdod perthnasol |
|---|---|---|---|
| Cyfeirio unigolyn sy'n gweithio i'r asiantaeth at yr | Ie | | |

| *Colofn 1*<br>Y digwyddiad | *Colofn 2*<br>I'w hysbysu i:<br>Yr awdurdod cofrestru | Y Bwrdd Iechyd Lleol /Yr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol | Yr awdurdod perthnasol |
|---|---|---|---|
| Ysgrifenydd Gwladol neu'r Cynulliad yn unol ag adran (1)(a) o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 | | | |
| Marwolaeth oedolyn neu blentyn neu anaf difrifol i oedolyn neu blentyn wrth iddo gael gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr asiantaeth | Ie | Ie | Ie (pan fo'n marwolaeth plentyn neu'n anaf difrifol i blentyn) |